Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda Zoom nos Lun, 18 Mai 2020, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Jim Bryan,
Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Ian Lewney,
Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Mike Van Der Eik ac Ifan Wyn.
Ynghyd â'r Cynghorydd Sir Emrys Wynne.

245. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Maer y Cynghorydd Mike Van Der Eik i'w gyfarfod Cyngor cyntaf, gan ei longyfarch ar gael ei gyfethol a chroesawodd bawb arall i gyfarfod rhithiol cyntaf y Cyngor. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

246. DATGAN BUDDIANNAU

Datgandodd y Cynghorydd John Wynne Hughes fudd yn eitem 12 – cais am gymorth ariannol gan Dŷ Gobaith fel cyflogai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Y Clerc i anfon ffurflen datgan budd yn dilyn y cyfarfod.

247. ADRODDIAD Y MAER

The Mayor reported that he had attended or been involved with the following events:

17.03 Cyfarfod Felodrom gyda Chlwb Beicio Rhuthun
28.03 Diweddariad Cymuned Rhuthun Wythnos 1 – wedi'i ffilmio yn yr Hen Lys
30.03 Cyfarfod Felodrom gyda Cadwyn Clwyd
04.04 Diweddariad Cymuned Rhuthun Wythnos 2 – wedi'i ffilmio yn yr Hen Lys
05.04 Gorymdaith y Pasg y Maer Rhan 1
06.04 Gorymdaith y Pasg y Maer Rhan 2
Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys trwy Zoom
11.04 Diweddariad Cymuned Rhuthun Wythnos 3 – wedi'i ffilmio yn yr Hen Lys
18.04 Diweddariad Cymuned Rhuthun Wythnos 4 – wedi'i ffilmio yn yr Hen Lys
20.04 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys trwy Zoom
21.04 Cyfarfod Felodrom gyda'r ymgynghorwyr LK2 a Cadwyn Clwyd trwy Zoom
25.04 Diweddariad Cymuned Rhuthun Wythnos 5 – wedi'i ffilmio yn yr Hen Lys
02.05 Diweddariad Cymuned Rhuthun Wythnos 6 – wedi'i ffilmio yn yr Hen Lys
04.05 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys trwy Zoom
09.05 Diweddariad Cymuned Rhuthun Wythnos 7 – wedi'i ffilmio yn yr Hen Lys
11.05 Cyfarfod anffurfiol Cyngor Tref Rhuthun
13.05 Cyfarfod Felodrom trwy Zoom
Clwstwr Busnes yr Hen Lys trwy Zoom

Nifer o gyfarfodydd anffurfiol trwy Zoom gyda Ruth Astbury ynghylch y Felodrom a Kate Harcus ynghylch yr Hen Lys.

248. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Deputy Mayor)	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy Zoom Wedi recordio darlleniad ar gyfer gwasanaeth Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop gan y Parch Stuart Evans
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Dim i'w adrodd.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod ar-lein Llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos
Cyng. Jim Bryan	Dim i'w adrodd.

Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd.
Cyng. John Wynne Hughes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Menna Jones	Cynorthwyo gyda'r Banc Bwyd bob wythnos gan fod llai o bobl ar gael yn ystod cyfnod pandemig Covid-19
Cyng. Ian Lewney	Dim i'w adrodd.
Cyng. Jabez Oakes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Dim i'w adrodd.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Ymlaen Rhuthun a chyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy Zoom
Cyng. Dave Snape	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys a chyfarfod Clwstwr Busnes yr Hen Lys trwy Zoom
Cyng. Mike Van Der Eik	Dim i'w adrodd.
Cyng. Ifan Wyn	Dim i'w adrodd.

249. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Cyflwynodd y Cynghorydd Emrys Wynne adroddiad ar ran y tri aelod yn cynrychioli ward Rhuthun.

250. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnnau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2020 yn gofnod cywir.*

251. MATERION YN CODI

Holodd aelod beth fyddai'n digwydd i'r cyfraniad o £200 i Eisteddfod Gydwladol Llangollen gan fod eisteddfod 2020 wedi'i gohirio. Esboniodd y Clerc bod y siec wedi'i hanfod fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud, ond nad oedd wedi'i chyflwyno i'w thalu hyd yma.

252. COFNODION Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2020.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2020.*

253. TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR TREF RHUTHUN

Bu'r aelodau'n ystyried pryd fyddai orau i gynnal y Cyfarfod Blynyddol, gyda'r rheoliadau newydd yn argymell ei gynnal cyn diwedd 2020 a chyn Mai 2021 ar yr hwyraf. Awgrymwyd bod y Maer a'r Dirprwy Faer presennol yn parhau yn eu swydd am chwe mis arall a threfnu cyfarfod ym mis Tachwedd. Awgrymwyd hefyd y dylid gohirio cyflwyno'r Gwobrau Dinesydd Da tan hynny a hyrwyddo'r gwobrau'n egnïol gan fod cymaint o weithredu gwirfoddol wedi digwydd yn ystod y pandemig Covid-19. Roedd yr aelodau o blaid hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD*: gohirio'r Cyfarfod Blynyddol tan fis Tachwedd a'r Clerc i rannu dyddiad addas.*

254. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Roedd yr aelodau wedi derbyn yr adroddiad diweddaru cyn y cyfarfod ac yn fodlon gyda'r cynnydd sy'n cael ei wneud dan yr amgylchiadau. Ychwanegodd y Clerc bod siec am £326 wedi'i dderbyn gan Bwyllgor Rheoli Canolfan Awelon gan fod y ganolfan gymuned wedi cau yn awr. Roedd yr aelodau'n dymuno anfon llythyr yn mynegi eu diolchiadau am y cyfraniad hwn.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y diweddariad an anfon llythyr i Bwyllgor Rheoli Canolfan Awelon.*

255. DIWEDDARIAD YNGHYLCH CAIS FELODROM GOGLEDD CYMRU

Cyfeiriodd aelod at ddefnyddio drôn i ffilmio'r safle a grybwyllwyd yn yr adroddiad diweddaru. Awgrymodd y Cynghorydd Emrys Wynne ddefnyddio delweddau Google Earth gan fod y rhain yn fanwl iawn. Cadarnhaodd y Maer nad oedd angen defnyddio drôn mwyach ac y byddai'r gwaith yn cael ei wneud gan ddefnyddio ffotograffau a delweddau panorama.

***PENDERFYNWYD**: to note the update.*

256. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – TŶ GOBAITH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gymorth ariannol o £1,000 gan hosbis Tŷ Gobaith. Roedd yr aelodau o'r farn y gallai nifer o geisiadau tebyg gael eu cyflwyno yn dilyn yr argyfwng coronafeirws Covid-19, ac y byddai rhai digwyddiadau y rhoir cymorth ariannol iddynt yn arferol yn cael eu gohirio neu eu canslo. Roeddynt yn awyddus i gael dealltwriaeth fanylach o ran y sefyllfa ariannol er mwyn medru cefnogi grwpiau a digwyddiadau lleol. Cynigiwyd ac eiliwyd gwrthod y cais, a phleidleisiwyd o blaid hyn.

***PENDERFYNWYD**: gwrthod y cais a chael eitem agenda ac adroddiad yn y cyfarfod nesaf yn amlinellu'r grwpiau a digwyddiadau sy'n gofyn am ac yn derbyn cymorth ariannol yn arferol a'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer cymorth ariannol.*

257. CYFRIFON CYNGOR TREF RHUTHUN 2019-2020

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cyfrifon Cyngor Tref Rhuthun am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020 cyn cael eu cyflwyno i'r Archwilydd Mewnol.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020.*

258. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ebrill 2020.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ebrill 2020.*

259. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

BO (bancio ar-lein)	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Mai 2020		£554.76
BO	Canda Copying Ltd	Llogi llungopiwr a chopïau isafswm	*	£41.90
BO	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£15.06
BO	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£2.59
BO	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol		£719.61
BO	Hill & Roberts	Ffi gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres – Mai 2020	*	£84.00

O gyfrif Yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

BO	Three Feathers Ltd	Dychwelyd cyfraniad yr Hen Lys		£1,000.00

260. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 15 Mehefin 2020 am 7pm.*